Ysgol Tryfan

Cyfeillion Rhieni ac Athrawon Ysgol Tryfan

Annwyl gyd rieni/gwarchodwyr

Hoffech chi gerdded yr olygfa sydd i'w chael o Ysgol Tryfan? Nid ar yr un tro wrth reswm, ond dros y blynyddoedd nesaf? Os oes gennych ddiddordeb, bwriadwn gychwyn wrth ein traed yn lled isel a lleol i weld os ydi pobl yn mwynhau'r cerdded cymdeithasol a gweld sut aiff hi.

Taith gerdded Golygfa Tryfan (Rhan 1) 21/09/2013

Cyfarfod yn Rachub am **10.30**, tu allan i'r Dderwen Frenhinol (Royal Oak)
Taith gylch hamddenol am Moel Faban, Gyrn a Moel Wnion - mae yna olion hynafol diddorol ar y tir a phlanhigion difyr.
Sut i gyrraedd - Gallwch ddal bws o Fangor i Rachub am 10.10 - Arriva 7C a dychwelyd ar fws 14.41 / 15.26 ayb
Hyd y daith - 5.5 milltir (9km)
Amser teithio - 3 ½ awr
Cinio - Bydd angen pecyn bwyd a diod.
Offer - Dewch a sach gefn gyda diod a dillad rhag glaw rhag ofn.
Bydd gan yr arweinydd git cymorth cyntaf ac offer brys.

Oherwydd natur cyfnewidiol y tywydd, rhag ofn bod angen cysylltu i ohurio hoffem wybod pwy sydd am fynychu a chael rhif ffon cyswllt. Dylid dychwelyd y bonyn i'r ysgol erbyn y 19eg o Fed os gwelwch yn dda.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld ar y dydd

Angharad Harris ar ran CrhA Ysgol Tryfan

Rydym am ddod ar y daith gyda _____ oedolyn a _____ plerson ifanc.

Enw'r cyswllt os bydd angen gohurio yw_____ a'r rhif ffon cyswllt yw_____

Mewn achos o argyfwng ar y daith, dylech gysylltu gyda _____ (enw) ar y rhif canlynol _____

Ni allwn fod yn gyfrifol am blant/pobl ifanc heb fod riant/gwarchodwr yn bresennol.